Creu Cymru oed gyfeillgar

# Maniffesto 2021

## Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud

Gweledigaeth Age Cymru yw Cymru sy'n gyfeillgar i bob oedran, lle mae pawb yn mwynhau iechyd a gofal cymdeithasol da, yn byw'n ddiogel, yn rhydd o wahaniaethu ac yn cymryd rhan weithredol yn eu cymuned.

Mae rhwydwaith Age Cymru yn cynnwys partneriaid lleol annibynnol ledled Cymru. Rydym yn ogystal yn gweithio ar y cyd gydag Age NI, Age Scotland ac Age UK i wella bywydau pobl hŷn. Gyda'n gilydd rydym yn darparu cefnogaeth a gwasanaethau hanfodol yn uniongyrchol i bobl hŷn yn y gymuned.

## Hawliau pobl hŷn

Ein blaenoriaeth ar gyfer llywodraeth nesaf Cymru yw hyrwyddo a gwarchod hawliau pobl hŷn fel bod mwy ohonom yn mwynhau bywyd urddasol, diogel a hapus. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn arbennig o anodd i bobl hŷn, ac rydym yn awyddus i sicrhau bod yr anawsterau rydym ni'n eu profi'n cael eu cydnabod mewn cynlluniau ar gyfer ailadeiladu wedi Covid.

## Tlodi a llais pobl hŷn

**Beth yw'r sefyllfa?**

- Mae anghydraddoldeb parhaus o ran mynediad at eiriolaeth i'r holl bobl hŷn yng Nghymru
- Mae 120,000 o bensiynwyr yng Nghymru yn byw mewn tlodi
- Nid yw 80,000 o aelwydydd yng Nghymru sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn yn eu hawlio
- Mae diffyg mynediad at wasanaethau digidol yn her fawr i bobl hŷn. Dim ond 49% o bobl 75 oed neu hŷn sydd â mynediad i'r rhyngrwyd.

**Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru:**

- Sicrhau fod gwasanaethau eirioli ar gael i bawb sydd eu hangen, a rhaid i'r ddarpariaeth o wybodaeth a gwasanaethau fod yn hygyrch, ar gael ar-lein ac mewn ffurf eraill. Mae'n rhaid clywed a gwrando ar leisiau pobl hŷn
- Sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus yn rhagweithiol wrth hysbysu pobl hŷn pan ddônt yn gymwys i gael hawliau, i leihau gwerth miliynau o bunnoedd o fudd-daliadau nas hawliwyd, a allai godi pobl hŷn allan o dlodi
- Amddiffyn rôl hanfodol gwasanaethau llyfrgell wrth hwyluso cynhwysiant digidol a sicrhau bod gwasanaethau o'r fath yn hygyrch i bobl hŷn.

## Mynediad i ofal sylfaenol

**Beth yw'r sefyllfa?**

Canfu ymchwil Age Cymru fod pobl hŷn yn ystod y cyfnod cloi wedi cael problemau sylweddol wrth lywio systemau apwyntiadau meddygon teulu ar-lein ac wedi profi anawsterau ag achoswyd gan orddibyniaeth ar ryngweithio ar-lein, megis e-byst. Roedd hyn yn arbennig o anodd i bobl hŷn heb fynediad i'r rhyngrwyd neu gyda chysylltedd gwael. Roedd eraill yn cael trafferth gydag amseroedd aros hir ar y ffôn neu'n delio â systemau brysbennu oedd yn dweud wrthynt yn aml nad oedd eu mater iechyd yn fater brys ac y byddai'n rhaid iddynt aros, heb wybod ble i droi am help.

**Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru:**

- Sicrhau fod apwyntiadau meddyg teulu wyneb yn wyneb ar gael lle bo hynny'n briodol. Rhaid i systemau apwyntiadau fod yn gyfeillgar i bobl o bob oedran
- Sicrhau gofal sylfaenol sy'n hygyrch a bod yn rhaid i unrhyw newidiadau i wasanaethau gael eu cyfleu'n glir i bobl hŷn a'u bod yn cyfranogi'n effeithiol mewn unrhyw broses ymgynghori.



***Dim ond 49% o bobl 75 oed neu hŷn sydd â mynediad i'r rhyngrwyd***

## Iechyd a gofal cymdeithasol di-dor

**Beth yw'r sefyllfa?**

Mae pobl hŷn sy'n ffit yn feddygol i gael eu rhyddhau yn aros yn yr ysbyty oherwydd diffyg cymorth gofal cymdeithasol priodol a fyddai'n caniatáu iddyn nhw ddychwelyd adref. Mae gormod o bobl hŷn yn cael eu gadael yn aros mewn gwelyau ysbyty am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol tra bod trafodaethau cymhleth yn cael eu cynnal rhwng asiantaethau ynghylch cyllido pecyn tymor hir. Mae eraill yn cael eu rhyddhau yn amhriodol, heb i wiriadau digonol gael eu cynnal i sicrhau y gellir gofalu amdanynt yn ddiogel gartref.

Mae pobl hŷn yn aml yn derbyn sawl gwasanaeth a byddent yn elwa o gael cydlynydd gofal sengl, neu sylfaenol, a allai weithredu fel pwynt cyswllt cyntaf yn ogystal â cheisio gwella cydgysylltu rhwng gwasanaethau.



***Mae pobl hŷn yn byddent yn elwa o gael cydlynydd gofal sengl neu sylfaenol***

**Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru:**

- Sicrhau fod strwythurau yn eu lle fel y gellir darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor i bobl hŷn
- Rhaid rhoi cydraddoldeb o ran statws gwleidyddol a sefydliadol i ofal cymdeithasol a'r GIG, er mwyn sicrhau gofal di-dor effeithiol a chanolbwyntio ar ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Mae'n rhaid cal amserlen glir, gydag ymgynghoriad cyhoeddus helaeth, i fynd i'r afael â chyllido gofal cymdeithasol yn y dyfodol.



***Mae 120,000 o bensiynwyr yng Nghymru yn byw mewn tlodi***

## Cyflogaeth

**Beth yw'r sefyllfa?**

Er gwaethaf cyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010, mae gwahaniaethu ar sail oedran mewn cyflogaeth yn parhau i fod yn eang. Ledled y DU, mae 40% o weithwyr 50 oed a hŷn yn credu eu bod wedi bod dan anfantais yn y gwaith oherwydd eu hoedran.

**Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru:**

- Sicrhau bod pob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 yn effeithiol i amddiffyn pobl hŷn rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb oedran
- Rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i sefydliadau fel y gallant ddefnyddio sgiliau a phrofiadau gweithwyr hŷn.

## Cymunedau sy'n gyfeillgar i bobl o bob oedran

**Beth yw'r sefyllfa?**

Nododd arolwg Age Cymru bod mwy na 55% o ymatebwyr yn ystyried bod mynediad i dai bach cyhoeddus yn eu cymuned yn 'wael'. Dywedodd dros draean o'r ymatebwyr fod palmentydd yn eu cymuned yn 'wael' ac roedd mwy na 22% o'r ymatebwyr yn ystyried bod seddi cyhoeddus a lleoedd i orffwys yn eu cymuned yn 'wael'.

***Roedd mwy na 22% o'r ymatebwyr yn ystyried bod seddi cyhoeddus a lleoedd i orffwys yn eu cymuned yn 'wael'***



**Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru:**

- Gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu digon o dai bach cyhoeddus hygyrch ledled Cymru, a'i fod yn glir ble ydynt
- Gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr trafnidiaeth gymunedol a chyhoeddus i gefnogi rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy, integredig a hygyrch ledled Cymru, i sicrhau bod pobl hŷn yn parhau i fod yn gysylltiedig â chymunedau a gwasanaethau.

Mae'r ffynonellau ar gyfer yr ystadegau a ddefnyddiwyd yn y maniffesto hwn ar gael ar ein gwefan.

**Rhif ffôn:** 029 2043 1555 **E-bost:** enquiries@agecymru.org.uk **Gwefan:** www.agecymru.org.uk

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig: 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad ein swyddfa gofrestredig Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2021